2025-29

# CYNLLUN STRATEGOL

## Gweledigaeth

**I fod yn Goleg Catholig sy'n meithrin twf dysgwyr mewn ysbryd a gwirionedd, gan annog ffydd, doethineb ac uniondeb.**

"Ein gweledigaeth fel coleg Catholig yw cymuned lle bydd pob person yn cael croeso trugarog, ei faethu mewn doethineb, a'i ysbrydoli i ymofyn y gwirionedd. Cydymdrechwn i fod yn oleufa ffydd a dysgeidiaeth, gan feithrin amgylchedd lle gall pŵer trawsffurfiol addysg a dyfroedd bywiol cariad Crist lifo'n rhwydd, gan dorri'r syched am wybodaeth a thwf ysbrydol. Gyda'n gilydd, ymrwymwn i adeiladu dyfodol wedi'i seilio ar wasanaeth, cynwysoldeb, a'r penderfyniad i ddilyn llwybr diwyro at ragoriaeth, gan addoli mewn ysbryd a gwirionedd."

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

## Cenhadaeth

Coleg Catholig i'r gymuned, sy'n mynnu darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch, wedi'i ysbrydoli gan Grist.

## Diwylliant

**YSBRYD** – Pwysleisio ffydd, gweddi a thwf ysbrydol fel nodweddion sylfaenol ein cymuned.

**GWIRIONEDD** – Annog gonestrwydd, doethineb a mynnu gwybodaeth a chyfiawnder.

**GWASANAETH** – Meithrin ymrwymiad i helpu eraill, mewn cariad a gwyleidd-dra.

**GWROLDEB** – Ysbrydoli gwytnwch, dewrder mewn ffydd, a dyfalbarhad yn wyneb heriau.

**Ysbryd a Gwirionedd**
*Ond mae amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y gwir addolwyr yn addoli'r Tad mewn ysbryd a gwirionedd, oherwydd rhai felly y mae'r Tad yn ceisio i fod yn addolwyr iddo. Ysbryd yw Duw, a rhaid i'w addolwyr ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd. (Ioan 4:23-24)*

**Gwasanaeth**
*Rhaid i'r un mwyaf ohonoch fod yn was i chwi. Darostyngir pwy bynnag fydd yn ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pwy bynnag fydd yn ei ddarostwng ei hun. (Matthew 23:11-22)*

**Gwroldeb**
*"Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys ac anis a chwmin, ond gadawsoch heibio bethau trymach y Gyfraith, cyfiawnder a thrugaredd a ffyddlondeb". (Matthew 23:23-24)*

## Gwerthoedd

1. **Urddas y Person Dynol.**
   *Adnabod gwerth cynhenid pob unigolyn.*
2. **Dewis Blaenoriaethol ar gyfer y Tlawd**
   *Blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer y mwyaf anghenus.*
3. **Datganoliaeth**
   *Ymbŵeru unigolion a chymunedau i wneud penderfyniadau ar lefelau addas.*
4. **Cydsafiad a'r Lles Cyffredin**
   *Meithrin undod a chyd-gefnogaeth.*
5. **Gofal am y Greadigaeth**
   *Stiwardiaeth o'r amgylchedd fel gweithred o ffydd.*

## Blaenoriaethau Strategol

1. Atgyfnerthu hunaniaeth Gatholig fel sail i'r coleg.
2. Mwyhau potensial pawb o fewn y gymuned.
3. Meithrin ymdeimlad o berthyn, llesiant, diogelwch a chydsafiad o fewn y gymuned.
4. Sicrhau cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol.

## Amcanion



### Cenhadaeth Gristnogol

**Byddwn ni'n:**

Gosod hunaniaeth Gatholig o fewn i bob agwedd o fywyd y coleg.

Hybu partneriaethau gyda phrifysgolion Catholig, ysgolion, plwyfi a sefydliadau cyhoeddus cymdeithas.

Buddsoddi mewn a datblygu arweinyddion er mwyn meithrin diwylliant o ysbryd, gwirionedd, gwasanaeth a dewrder ar gyfer pawb yn y gymuned.

### Ffurfiant Pawb

**Byddwn ni'n:**

Sicrhau rhagoriaeth academaidd gyson ar draws pob demograffig.

Datblygu cwricwlwm arloesol, cynhwysfawr ar gyfer pob dysgwr sy'n eu galluogi i dyfu mewn ffydd.

Buddsoddi mewn ffurfiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff, i hybu eu twf.





### Cymuned a Phobl

**Byddwn ni'n:**

Meithrin cyfleoedd cynhwysol i gynnwys pawb yn llawnder bywyd y coleg, gan greu ymdeimlad o le a pherthyn, ac adnabod statws unigryw Coleg Dewi Sant fel Coleg Catholig Cymreig.

Cefnogi iechyd, diogelwch a llesiant pawb yn ein cymuned.

Sicrhau llywodraethiant rhagorol dros gymuned y coleg, gan weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol gyda staff a chynrychiolwyr y dysgwyr.

### Stiwardiaeth Gynaliadwy

**Byddwn ni'n:**

Cofleidio arloesedd a chyfleoedd i feithrin twf drwy ddysgu gydol-oes, rhaglenni rhyngwladol a phartneriaethau.

Sicrhau rheolaeth gyfrifol o adnoddau gan ddatblygu ymarferiad moesegol, cynaliadwy ac wedi'u ffocysu.

Creu gofodau sy'n ddiogel, cymryd mantais o'r technolegau gorau ac ysbrydoli pawb gyda synnwyr o le ac o berthyn.



## Mesur Rhagoriaeth

- Canlyniadau dysgwyr o'u cymharu â meincnodau cenedlaethol
- Dilyniant dysgwyr i addysg bellach neu waith
- Llwyddiant Alumni
- Adborth Llais y Dysgwr
- Cyfranogiad yng ngweithgareddau'r caplandy
- Cysondeb perfformiad ar draws ardaloedd y cwricwlwm
- Gwobrau ac anrhydeddau rhanbarthol a chenedlaethol
- Canlyniadau adborth y staff
- Targedau llwyddiant recriwtio
- Amrywiaeth ffynonellau incwm
- Hydwythedd a hylifedd ariannol
- Buddsoddiad mewn adnoddau

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College